# Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 22 Medi 2004

## Cynigion a gyflwynwyd ar 15 Medi 2004

### Y Ddadl Fer

**NDM2091 Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Hyfforddiant ym maes Twristiaeth yng Nghymru - Yr Hyn y mae Pobl ei Eisiau.

**NDM2092 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried canfyddiadau ac argymhellion adroddiad diweddar yr Adolygiad o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru; a

2. Yn croesawu'r Cynllun Gweithredu drafft a'r ymgynghoriad, y bwriedir iddynt hwyluso'r broses o roi'r argymhellion allweddol ar waith.

*Cafodd copïau o'r Adolygiad o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru a'r Cynllun Gweithredu eu hanfon drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 15 Medi 2004*

**NDM2093 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn ailddatgan ei gefnogaeth i nod hirdymor Llywodraeth y Cynulliad o greu cenedl ddwyieithog.

2. Yn croesawu cyhoeddi "Adroddiad Blynyddol Iaith Pawb a'r Cynllun Iaith Gymraeg 2003-4" a'r pethau da a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

*Cafodd copïau o "Adroddiad Blynyddol Iaith Pawb a'r Cynllun Iaith Gymraeg 2003-4" eu hanfon drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 15 Medi 2004 a gellir ei weld drwy'r hypergyswllt isod:*
*http://www.wales.gov.uk/subiculture/content/iaithpawb-wls-report-2003-4-e.pdf*
*http://www.cymru.gov.uk/subiculture/content/iaithpawb-wls-report-2003-4-w.pdf*

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 16 Medi 2004

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM2092**

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai cynigion i ddemocrateiddio'r Parciau Cenedlaethol fod yn fwy uchelgeisiol gyda hanner yr aelodau'n cael eu hethol yn uniongyrchol.

**2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pwysigrwydd cydbwyso anghenion unigryw’r parciau cenedlaethol â'r gofyniad iddynt fod yn rhannau gweithgar o'r economi, ac nid yn amgueddfeydd.

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 17 Medi 2004

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM2092**

**1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn galw am ethol o leiaf un o bob pump o aelodau'r Parciau Cenedlaethol yn uniongyrchol."

**2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn galw am adolygiad ynghylch a ddylai holl Barciau Cenedlaethol Cymru barhau gyda'r swyddogaeth o reoli datblygu."

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 2, dileu "Yn croesawu'r" ac yn ei le rhoi "Yn nodi'r".

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn gresynu nad ystyriwyd cwestiynau mwy sylfaenol a threiddgar ynghylch natur, strwythur a rôl y Parciau Cenedlaethol yn ystod yr adolygiad hwn."

**NDM2093**

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ym mhwynt 2 dileu "a'r pethau da a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf".

**2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn galw am sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'w alluogi i gyflwyno pecynnau iaith i'r sector preifat, yn arbennig busnesau bach a chanolig eu maint."

**3. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i wella'r ddarpariaeth a'r mynediad i addysg bellach ac addysg uwch cyfrwng Cymraeg ond yn credu bod angen rhagor o waith a buddsoddi yn y maes allweddol hwn."

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 2, dileu 'Yn croesawu' ac yn ei le rhoi 'Yn nodi'.

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 2, dileu popeth ar ôl "2003-4" ac yn ei le rhoi

"ac yn condemnio methiant Llywodraeth y Cynulliad i gydnabod, a chanolbwyntio ar, dwf a datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg fel y sylfaen amlwg i adeiladu cenedl ddwyieithog."

**6. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gydnabod bod angen cadw swyddogaeth hanfodol a neilltuol Bwrdd yr Iaith Gymraeg.'

**7. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn cydnabod bod angen cefnogi gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg o archwilio'r diwydiant cyfieithu yng Nghymru yn fwy manwl, gan gynnwys yr angen am ddigon o gyfieithwyr, ac yn cydnabod hefyd bod angen adolygu'r gwasanaethau cyfieithu (gan gynnwys terminoleg), ar gyfer Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol.'

**8. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn cefnogi ac yn cydnabod pwysigrwydd gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg gyda'r sectorau preifat, addysg a gwirfoddol.'

**9. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gydnabod bod angen cefnogi'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg a dwyieithog mewn ysgolion uwchradd ac yn mynegi pryder dwys ynghylch cyllido addysg Gymraeg a dwyieithog yn y dyfodol yn y sector ôl-16.'

**10. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i flaenoriaethu tai fforddiadwy o fewn strategaeth Iaith Pawb.'

**11. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried rhoi rhagor o gefnogaeth ariannol i Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn amodol ar gynllun busnes a strwythur rheoli priodol.'